Gweithgaredd 3: Beth y dylem ei wneud am anghydraddoldeb? Astudiaeth achos: Brasil

Amcanion dysgu • Adolygu strategaeth gan y llywodraeth ym Mrasil i leihau anghydraddoldeb ac awgrymu sut y gallai llywodraethau eraill ymdrin ag anghydraddoldeb.
Adnoddau • Taflen Gweithgaredd: Sut i leihau anghydraddoldeb • Dalennau mawr o bapur a phennau marcio
Yr amser sy'n ofynnol: 30-40 munud

Cyflwyniad: Gostyngiad mewn anghydraddoldeb ym Mrasil, 2003-2009 (5 munud)

Mae rhai llywodraethau o'r farn nad eu cyfrifoldeb nhw yw lleihau anghydraddoldeb, ac nid ydynt wedi gwneud fawr ddim i fynd i'r afael ag ef. Mae eraill wedi canfod ei bod hi'n anodd cyfuno'r holl bolisïau gwahanol sy'n ofynnol i leihau anghydraddoldeb, ac nid yw eu hymdrechion wedi bod yn gwbl llwyddiannus.
Er enghraifft, roedd y llywodraeth a etholwyd ym Mrasil yn 2002 wedi ymrwymo i leihau anghydraddoldeb yn un o wledydd mwyaf anghyfartal y byd. Rhwng 2003 a 2009, gostyngodd nifer y Brasiliaid sy'n byw mewn tlodi o 26% i 15%, a bu gostyngiad bach mewn anghydraddoldeb.

Archwiliad o bolisïau'r llywodraeth (20-30 munud)

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri neu bedwar, a rhowch i bob grŵp gopïau o'r daflen gweithgaredd, sy'n amlinellu rhai o'r polisïau a ddilynwyd gan lywodraeth Brasil, dan arweiniad yr Arlywydd Luiz Inácio Lula da Silva (a elwir yn "Lula"), rhwng 2003 a 2011. Dylai'r bobl ifanc eu darllen. Gofynnwch iddynt a oes ganddynt unrhyw gwestiynau, gan ofyn ambell gwestiwn er mwyn gwirio eu bod yn deall y cynnwys.
- Gofynnwch i'r grwpiau drafod pob polisi ac, yna, i ychwanegu sylwadau ynghylch i ba raddau, yn eu barn nhw, y bydd y polisïau wedi lleihau anghydraddoldeb.
- Ar ôl iddynt archwilio'r holl bolisïau, gofynnwch i'r grwpiau geisio dod i gasgliad terfynol ynghylch i ba raddau y bu polisïau llywodraeth Lula, gyda'i gilydd, yn llwyddiannus o ran lleihau anghydraddoldeb ym Mrasil.
- Dewch â'r grwpiau ynghyd a gofynnwch iddynt am eu casgliadau. Arweiniwch drafodaeth ddosbarth fer am y rhesymau dros eu casgliadau, ac unrhyw wahaniaethau rhyngddynt.

Sesiwn lawn: Cymryd camau trwy greu polisïau (5 munud)

- Gofynnwch iddynt weithio yn yr un grwpiau eto. Gofynnwch i bob grŵp awgrymu pum polisi y byddent yn eu cyflwyno i leihau anghydraddoldeb yn eu gwlad. Dylent hefyd drafod pa mor realistig yw eu hawgrymiadau, yn eu barn nhw. Er enghraifft, a oes unrhyw rai ohonynt eisoes yn cael eu hyrwyddo gan bleidiau gwleidyddol prif ffrwd?

I gael rhagor o weithgareddau am Frasil, gweler: Oxfam (2016) – Chwarae Teg?

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Taflen Gweithgaredd

Sut y mae Brasil wedi ceisio lleihau anghydraddoldeb?

Dyma rai o'r polisïau a'r newidiadau a ddefnyddiwyd gan lywodraeth Brasil i geisio lleihau anghydraddoldeb. Ysgrifennwch sylw i egluro, yn eich barn chi, pa mor llwyddiannus y bu pob un.

	Polisi	Eich sylwadau
1	Rhoddodd y llywodraeth fenthyciadau banc i bobl gyffredin a grwpiau lleol i sefydlu busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol. Yn aml, nid oedd y banciau masnachol yn benthyca arian i fusnesau bach. Fodd bynnag, roedd y benthyciadau hyn yn aml yn mynd i'r dinasoedd mawr hynny a oedd ag economïau cryf yn barod.	
2	Darparodd y llywodraeth brydau ysgol am ddim i'r holl blant ysgol. Aethant ati hefyd i sicrhau bod o leiaf 30% o'r bwyd yr oeddent yn ei brynu ar gyfer ciniawau ysgol yn dod o ffermydd teuluol bach.	
3	Mae'r bobl gyfoethocaf ym Mrasil yn talu canran lai o'u henillion ar dreth na'r bobl dlawd, ac mae llawer o'r bobl gyfoethog yn osgoi talu treth yn gyfan gwbl. Roedd hyn yn cyfyngu ar faint o arian yr oedd y llywodraeth yn ei godi trwy dreth ac, felly, faint o arian a oedd yn cael ei wario ar iechyd ac addysg.	
4	Roedd mwy o weithwyr iechyd proffesiynol yn byw yn ardaloedd de, de-ddwyrain a threfol cyfoethocach Brasil. Yn aml, mae'n well gan bobl broffesiynol fyw yn yr ardaloedd hyn am fod yr amodau gwaith yn well. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd tlotach yng ngogledd y wlad y mae'r angen mwyaf am weithwyr iechyd cymwysedig.	
5	Gwariodd llywodraeth Brasil lawer mwy o arian, a chyfran lawer mwy o'i chyllideb, ar y gwasanaeth iechyd na llywodraethau blaenorol.	

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841